Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 01-02-22 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Geraint Owen, Austin Roberts, Gwyn Jones a Delyth Wynne (Clerc)<br>Julie Brotherton, Partner Tir a Phrydles, Cartrefi Conwy<br>Owain Roberts, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau a Dioglewch Tenantiaid, Cartrefi Conwy<br>Glynwen Davies, aelod o'r cyhoedd |
| **Ymddiheuriadau** | Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

- Cynllunio - Cyfeirnod: 0/49322 – Cyng Ceri.

4. **COLLI TAI CYMDEITHASOL YN EGLWYS BACH – CARTREFI CONWY**

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion Cartrefi Conwy Julie Brotherton a Owain Roberts i'r cyfarfod.

Rhoddodd Cyng Ceri drosolwg o bryderon y Cyngor. Trafododd Cyng Ceri y rhestr aros.
Tai cymdeithasol yw tai Cartrefi Conwy. Mae angen i gleientiaid gofrestru gyda Cartrefi Conwy.
Julie Brotherton i anfon copi o'r meini prawf ar gyfer mynd ar y gofrestr at y Clerc. Ar gyfer tai fforddiadwy, mae angen i gleientiaid gofrestru gyda CBSC.
Gofynnodd Cyng Ceri i'r Cyngor gael gwybod os oedd tŷ yn dod yn wag/cael ei werthu.
Mae 12 eiddo Cartrefi Conwy yn Eglwys Bach ar ôl. Mae mwyafrif helaeth yn fyngalos ond mae rhai yn dai.
Strategaeth Rheoli Asedau newydd sy'n cael ei datblygu eleni gan Cartrefi Conwy.
Diolchodd y Cadeirydd i Julie Brotherton ac Owain Roberts am ymuno â'r cyfarfod.

5. **CYNLLUNIO**

**Glynwen Davies joined the meeting to discuss the planning application below:**

- **Cyfeirnod: 0/49289**

Ymgeisydd: Mr Ben Adey-Davies
Cynllun: Creu unedau llety gan gynnwys tair o unedau glampio â chyfleusterau ategol, ac addasu rhannau o'r ysgubor bresennol i greu dwy o unedau hunangynhwysol i westeion yn ychwanegol i'r llety gwely a brecwast presennol, ynghyd â thirlunio cysylltiedig a strwythurau lliniaru/gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â hafan eco newydd ar gyfer hamdden a lles

Dyddiad cau: 28/01/2022

Pryderon gan drigolion ynghylch traffig ychwanegol/gormodol a diffyg lleoedd pasio ar y ffordd. Mae'r ffordd yn gul iawn mewn mannau ac mae'n difrodi mewn rhai mannau. Mae yna hefyd lwybr ceffylau ar Ffordd Gyffylog.

Soniodd y Cynghorwyr am yr angen i CBSC ofyn i'r ymgeisydd greu 2-4 lle pasio ar y ffordd. Awgrymodd y Cynghorwyr fod swyddogion Priffyrdd yn ymweld â'r safle i weld y pryderon eu hunain.

Cynigiodd Cyng John y dylid cyflwyno'r pryderon ar ran y Cyngor, eiliodd Cyng Geraint, cytunodd pob Cynghorydd.

- Cadnant Planning - Ty Mawr, Cae Sgubor, Eglwysbach, LL28 5UN - Ymgynghoriad cyn cyflwyno cais

  Dyddiad cau: 15/02/22

  Dim sylwadau.

- **Cyfeirnod / *Reference* : 0/49322**
  Ymgeisydd: Mr Paul Parry
  Cynllun: Addasiad ac estyniad arfaethedig i garej/gweithdy i ffurfio llety byw atodol
  Safle: The Birches, Eglwysbach Road, Eglwysbach LL28 5UD

  Dyddiad cau: 11/02/22

  Gadawodd Cyng Ceri y cyfarfod ac ni wnaeth sylwadau ar y cais cynllunio hwn.

  Dim sylwadau.

6. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/01/22).

Cynigwyd cofnodion 04/01/22 yn gywir gan Cyng Wendy ac eiliwyd gan Cyng John Lloyd.

7. **MATERION YN CODI**

- **Toiledau'r Pentref:**

  Eitem agenda mis Mawrth.

- **Mynwent yr Eglwys:**

  Mae Cyng Ceri wedi gofyn am 3 dyfynbris am y gwaith. Dim atebion hyd yma. Mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

  Trafododd Cyng John Emlyn am yr angen i dorri rhai canghennau o'r goeden ywen yn y fynwent. Dyfynbris o £100 wedi ei dderbyn gan Keith Webber. Bydd angen mwy o waith ar y goeden yn y dyfodol a allai fod tua £1,000.

  Cytunodd pob Cynghorydd i'r dyfyniad. Y Cynghorydd John Lloyd i gael rhagor o fanylion gan Keith Webber ynglŷn â'r gwaith sydd ei angen yn y dyfodol.

- **Asesiad risg y fynwent:**

  Cynghorwyr John Lloyd a John Emlyn wedi edrych ar yr asesiad risg. Cyng John Emlyn am yrru yr asesiad allan i bawb.

- **Awdit 20/21:**

  Y Clerc mewn cysylltiad gyda Swyddfa'r Awdit ac yn gweithio efo nhw.

8. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £6,849.34
Angladdau - £225.20
Cadw - £2,078.36

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00

**Angladdau:**
- John Lloyd Williams (Gwaith Secston) - £100.00
- Keith Webber (Torri brigau coeden) - £100.00

9. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC – Screwfix;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Ymgynghoriad - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: canllawiau statudol Cynghorau Cymuned a Thref;**
  Noder er gwybodaeth. Cyng John Emlyn wedi darllen yr ymgynghoriad. Adroddiad i'w ysgrifennu i'r cyhoedd yn flynyddol. Cynllun hyfforddiant i gynghorwyr a clercod yn ei le erbyn 5ed o Dachwedd.

- **E-Bost: CBSC – Fforwm Ardal Lleol – Y Gwasanaeth Cartrefi Gwag yng Nghonwy;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Jiwbili Platinwm ei Mawrhydi y Frenhines;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Hyfforddiant;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Ymgynghoriad ar asesiad llesiant drafft Conwy a Sir Ddinbych;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – Rhandiroedd;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Love North Wales Community Support – Rhodd;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Un Llais Cymru – Garddwest Palas Buckingham;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Un Llais Cymru – Fideos codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo – Cynghorwyr Cymuned a Thref;**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant;**
  Noder er gwybodaeth.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

- Mainc wrth y hysbysfwrdd. Cyng John Emlyn wedi holi Paul am y fainc. Paul am ddod yn ol at John.
- Tyllau a'r y tro ar y ffordd o Hen Efail at yr ysgol.
- Llwybyr o mynedfa Foel a Penmynydd wedi cau.
- Bodnant yn hawlio darn o hir arall – tir y cyngor groesffordd uwchben Topan.
- Cyng Austin angen cael trafodaeth gyda John Llan Farm am y cae chwarae.
- Llythyrau o ddiolch i'r ddau Paul am drefnu y goeden Nadolig ac i Bodnant hefyd.
  Clawdd wrth Bodnod dal heb ei dorri - bysys a loriau yn gorfod mynd i ochr arall o'r ffordd i basio .
- Llyfr Cofnodion - Cyng Wendy gyda un o'r llyfrau cofnodion sydd yn gorffen yn 1925. Cyng Wendy wedi cael caniatad gan y Cynghorwyr i nol y nesaf o'r neuadd er mwyn cael gwneud crynodeb o'r prif ddigwyddiadau yn hanes y Cyngor Cymuned.

11. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

01/03/22
05/04/22

03/05/22
07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00 o'r gloch.